

POLISI AR GYFER DARPARU CLUDIANT RHWNGY CARTREF A'R YSGOL/COLEG



CYNGOR BRO MORGANNWG
CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU GWELADWY A THRAFNIDIAETH



Manylion am y Tîm Cludiant Teithwyr

Yng Nghyngor Bro Morgannwg yr is-adran Gwasanaeth Gweledol a Thrafnidiaeth sy'n ymdrin â'r holl swyddogaethau sy'n ymwneud â chludiant ysgol a choleg.

Gellir anfon unrhyw ohebiaeth i'r cyfeiriad canlynol:

Cyngor Bro Morgannwg
Tîm Cludiant Teithwyr
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gweladwy a Chludiant
Depo'r Alpau
Heol y Chwarel
Gwenfô
CF5 6AA

Y rhif ffôn cyswllt yw: 01446 700111

Gwefan: <http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/transportation/transportation.aspx>

Miles Punter

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg

Emma Reed

Pennaeth Gwasanaethau Gweladwy a Chludiant
Cyngor Bro Morgannwg

Cynnwys

- Hawl i Gludiant i Ysgolion Prif Ffrwd ... [tudalen 2](#)
- Hawl i Gludiant Ysgol ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ... [tudalen 3](#)
- Cludiant i Addysg Bellach (16 i 19 oed) ... [tudalen 5](#)
- Rhagor o Wybodaeth ... [tudalen 6](#)
- Codau Canllawiau ... [tudalen 6](#)
- Cod Ymddygiad Wrth Deithio Llywodraeth Cymru ... [tudalen 7](#)
- Ffurflenni Cais am Gludiant (Cludiant Ysgol ADY) ... [tudalen 7](#)
- Tocynnau Bws (Prif Ffrwd) ... [tudalen 7](#)
- Tocynnau Bws Newydd ... [tudalen 7](#)
- Brodyr a Chwirydd ... [tudalen 7](#)
- Llwybrau Cerdded Anaddas ... [tudalen 7](#)
- Cysylltiadau Cludiant ... [tudalen 8](#)
- Prynu Sedd Sbâr ... [tudalen 8](#)
- Taliadau i rieni/gofalwyr ... [tudalen 8](#)
- Newid cyfeiriad ... [tudalen 8](#)
- Rhieni â Chyfeiriadau Gwahanol g ... [tudalen 8](#)
- Newid Cyfeiriad – disgyblion TGAU ... [tudalen 8](#)
- Cludiant am ddim a ddyfarnwyd mewn camgymeriad ... [tudalen 8](#)
- Cyfrifoldeb rhiant/gofalwr cyn i ddisgybl fynd ar gerbyd a phan fydd yn ei adael ... [tudalen 9](#)
- Gollwng disgyblion cynradd prif ffrwd yn y prynhawn ... [tudalen 9](#)
- Gollwng disgyblion ADY yn y prynhawn ... [tudalen 9](#)
- Gwregysau diogelwch ... [tudalen 9](#)
- Teledu cylch cyfyng ... [tudalen 10](#)
- Cynorthwyyr Teithwyr ... [tudalen 10](#)
- Tywydd Garw ... [tudalen 10](#)
- Monitro Contractau ... [tudalen 11](#)
- Gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ... [tudalen 11](#)
- Hyfforddiant ... [tudalen 11](#)
- Cyswllt Ysgolion ... [tudalen 11](#)
- Cyflyrau Meddygol Dros Dro ... [tudalen 11](#)
- Cyflyrau Meddygon Rhiant/Gofalwr ... [tudalen 11](#)
- Difrod i Gerbydau ... [tudalen 11](#)
- Gweithdrefn Gwyno ... [tudalen 11](#)
- Proses Apeliadau ... [tudalen 12](#)





Polisi Cludiant Rhwng Y Cartref a'r Ysgol/Coleg

BWRIAD Y CYNGOR YW DARPARU SYSTEM DDIBYNADWY O GLUDIANT A FYDD YN CEISIO CLUDO DDYSGWYR YN DDIOGEL, YN BRYDLON AC YN GYSURUS. MAE'R EGWYDDORION HYN YN BERTHNASOL I'R HOLL WASANAETHAU A DDARPERIR GAN Y CYNGOR

Fframwaith Cyfreithiol

Mae Gwasanaethau Cludiant Ysgol/Coleg yn cael eu llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

Deddf Addysg (Darpariaethau Amrywiol) 1996

Deddf Trafnidiaeth 1985

Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009

Mesur Diogelwch ar Drafnidiaeth i Ddysgwyr (Cymru) 2011

Darpariaeth Statudol ac Arweiniad Gweithredol ar Deithio gan Ddysgwyr 2014

Arweiniad Statudol ar y Cod Ymarfer wrth Deithio 2009

Arweiniad ar Asesiadau Risg wrth deithio o'r Cartref i'r Ysgol 2009

Arweiniad ar gyfer darparu gwregysau diogelwch ar deithio wedi'i neilltuo i ddysgwyr 2012

Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig 2002

Deddf AAA ac Anabledd 2001

Deddf Cerbydau Teithwyr Cyhoeddus 1985

Mae dogfennau Cod Ymarfer, sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn, yn dangos cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a gofynion statudol ac yn ceisio darparu'r cludiant sy'n angenrheidiol i ddysgwyr deithio i'w hysgol/coleg ac oddi yno yn ddiogel, yn brydlon ac yn gysurus.



Hawl i Gludiant I Ysgolion Prif Ffrwd

Darperir cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion oed **ADDYSG GYNRADD BRIF FFRWD** os ydynt yn byw 2 filltir neu'n bellach o'u hysgol addas agosaf. (At ddibenion y polisi hwn, disgyblion oedran cynradd prif ffrwd yw'r rhai sydd yn y dosbarth derbyn hyd at flwyddyn 6)

Darperir cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion oed **ADDYSG UWCHRADD BRIF FFRWD** os ydynt yn byw 3 milltir neu'n bellach o'u hysgol addas agosaf. (Yn ôl disgrisiwn y cyngor mae'r meini prawf hyn hefyd yn berthnasol i'r disgyblion hynny ym Mlynnyddoedd 12 ac 13 sy'n mynychu eu hysgol addas agosaf).

Mae Cyngor Bro Morgannwg ar hyn o bryd yn darparu cludiant ysgol am ddim **i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd prif ffrwd yn ôl ei ddisgrisiwn.**

Mewn amgylchiadau lle mae'r ysgol brif ffrwd addas agosaf yn llawn a bod mynediad wedi'i wrthod, bydd cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol ond yn cael ei ddarparu i'r ysgol addas agosaf nesaf. Rhaid bodloni'r pellteroedd cymhwyso fel yr amlinellir uchod o hyd.

Y Cyngor, fel yr Awdurdod Addysg Lleol ar y cyd ag ysgolion fydd yn penderfynu a yw ysgol yn llawn mewn unrhyw flwyddyn academiaidd. Dim ond pan fydd y wybodaeth angenrheidiol yn cael ei derbyn a'i chadarnhau y bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniadau o ran darparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i'r ysgol addas agosaf.

Pan fydd disgybl, o ganlyniad i ddewis rhieni, yn mynychu ysgol heblaw am yr ysgol addas agosaf fel y cydnabyddir gan Gyngor Bro Morgannwg, rhaid i'r rhieni dderbyn cyfrifoldeb llawn am gostau a threfniadau cludiant.

Hawl I Gludiant Ysgol ar Gyfer Disgyblion ag

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Bydd y Tîm Gwella Ysgolion a Chynhwysiant yn penderfynu ar gymhwysra disgyblion **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** â gofynion teithio penodol na ellir eu bodloni gydag addasiad rhesymol ar gludiant prif ffrwd.

Bydd disgyblion ADY yn gymwys i gael cludiant am ddim os byddant yn cael eu hasesu fel disgyblion ag anawsterau difrifol a/neu gymhleth a'u bod yn mynychu ysgol neu uned arbennig fel y cyfarwyddir gan y Tîm Gwella Ysgolion a Chynhwysiant neu ddsbarth mewn ysgol brif ffrwd sydd 2 filltir neu'n bellach (disgyblion oedran cynradd) a 3 milltir neu'n bellach (disgyblion oedran uwchradd) o gartref eu rhieni fel y'i mesurir gan y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Ystyrir cludiant i'r ysgol am ddim ar gyfer disgyblion ADY sy'n byw o fewn y terfynau 2 a 3 milltir yn unigol, gan gydymffurfio ag Adran 9 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a sicrhau tegwch a chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ar gydraddoldeb er mwyn sicrhau na fydd gwahaniaethu anghyfreithlon rhwng dysgwyr. Gwneir y penderfyniad hwn mewn ymgynghoriad â'r holl bartïon perthnasol. Os na all disgybl gerdded i'r ysgol (naill ai gyda chymorth oedolyn priodol neu'n annibynnol yn dibynnu ar ei oedran/allu) oherwydd natur ei anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd, bydd y cyngor yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol hyd yn oed os yw'r pellter yn llai na'r terfyn statudol. Caiff y penderfyniad ar hyn ei wneud gan y Tîm Trafnidiaeth Teithwyr ar y cyd â'r ysgolion a'r Gwasanaeth Gwella a Chynhwysiad. Os yw'n bosibl, ac ar y cyd â chytundeb y dysgwr; rhiant/gofalwr; yr ysgol a'r Gwasanaeth Gwella a Chynhwysiad, mae'n bosibl y caiff darpariaeth hebrwng ei darparu, yn lle trafnidiaeth, er mwyn galluogi'r disgybl i fynd i'r ysgol yn annibynnol. Mae hyn yn

hyrwyddo moddau teithio cynaliadwy ac yn annog byw yn annibynnol yn ogystal ac iechyd a lles.

Wrth gynnal asesiadau o anghenion dysgu ychwanegol plentyn bydd y Tîm Gwella Ysgolion a Chynhwysiant yn casglu gwybodaeth gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol allweddol ac yn penderfynu ar y ddarpariaeth a'r lleoliad sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion hynny. Bydd unrhyw ofynion unigol ar gyfer cludiant yn cael eu hasesu fel rhan o'r broses hon mewn ymgynghoriad â'r gwasanaeth cludiant ysgolion.

Lleoliadau Diwrnod Ysgol y tu allan i Fro Morgannwg

Os nad yw darpariaeth i ddiwallu angen dysgu ychwanegol disgybl ar gael o fewn Bro Morgannwg, gellir gwneud penderfyniad mai ysgol ddydd mewn awdurdod gwahanol yw'r lleoliad priodol agosaf. Os dyma'r sefyllfa, bydd cludiant fel arfer yn cael ei ddarparu'n ddyddiol. Mae'n rhaid i'r lleoliad hwn gael ei gytuno gan y Gwasanaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiad.

Lleoliadau Preswyl Ysgol y tu allan i Fro Morgannwg

Mae nifer bach iawn o ddisgyblion â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth yn mynd i ysgolion neu leoliadau preswyl. Y Gwasanaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant sy'n penderfynu a yw'r penderfyniad hwn yn briodol. Mae trefniadau a chostau cludiant yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses yn ymwneud â phenderfyniadau lleoliadau. Gellir darparu cludiant ar y sail ganlynol:

- **Lletya bob wythnos neu bob pythefnos – cludiant i'r plentyn ddychwelyd adref bob wythnos neu bob pythefnos yn ystod y tymor.**
- **Lletya 38 wythnos – cludiant ar ddechrau a diwedd pob hanner tymor ac un daith yn ôl ychwanegol fesul hanner tymor.**
- **Lleoliadau preswyl 51/52 wythnos – un daith yn ôl y tymor**

Nid yw cludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer integreiddio neu ar gyfer asesu cyn trosglwyddo i ysgol neu uned arbennig. Dim ond pan gytunir ar y lleoliad parhaol y bydd cludiant yn cael ei ddarparu.

Os bydd rhieni'n gwrthod cynnig am leoliad mewn ysgol briodol ar gyfer anghenion eu plentyn a bod yn well ganddynt i'w plentyn fynychu ysgol briodol arall, daw rhieni'n gyfrifol am ddarparu cludiant i'r ysgol yn ogystal â'r gost ariannol am hyn.

O dan amgylchiadau arferol ni fydd y Tîm Cludiant Teithwyr yn darparu trafndiaeth i lety seibiant. Fodd bynnag, os gall cludiant ysgol presennol ddarparu cludiant i'r ddarpariaeth seibiant ac oddi yno heb oedi neu wyro o'r llwybr, gellir ystyried hyn. Bydd cost hyn yn cael ei hadennill o'r gwasanaeth perthnasol. Rhaid i unrhyw gais

am gludiant i lety seibiant gael ei wneud yn uniongyrchol i'r Tîm Cludiant Teithwyr ac nid i yrwyr/hebryngwyr/gweithredwyr yn uniongyrchol.

Os penderfynir y dylai Plentyn sy'n Derbyn Gofal fynychu ysgol heblaw am yr ysgol addas agosaf i'w gartref presennol oherwydd angen i gynnal parhad mewn addysg neu gyswllt â brodyr a chwiorydd, bydd cludiant yn cael ei ddarparu gan y Tîm Cludiant Teithwyr a'r gost yn cael ei hailgodi yn ôl ar gyllideb y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal. Fel arall, o dan Adran 18 o Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, gall costau gwneud y trefniadau teithio gael eu hadennill gan yr awdurdod sy'n gofalu am y plentyn.





(16 i 19 oed)

Cludiant i Addysg Bellach

Bydd dysgwyr 16 i 19 oed sy'n byw ym Mro Morgannwg yn teithio am ddim os ydynt yn byw dair milltir neu fwy o'u sefydliad addysg bellach priodol agosaf ar gyfer y cwrs y maent yn ei ddilyn. Os bydd cwrs yn cael ei ddewis sydd ar gael mewn sefydliad sy'n agosach at gyfeiriad cartref y myfyriwr, ni fydd cludiant am ddim i'r ysgol yn cael ei ddarparu.

Bydd cludiant am ddim ond yn cael ei ddarparu i sefydliadau sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus ym Mro Morgannwg, Pen-y-Bont ar Ogwr a Chaerdydd.

Bydd Cludiant priodol rhwng y Cartref a'r Ysgol yn parhau i gael ei ddarparu i ddisgyblion ag ADY 16 i 19 oed (o dan 19 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd) sy'n parhau â'u haddysg yn y sefydliad addysg a gytunwyd gan y Gwasanaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiad.

Darperir cludiant o'r cartref i'r ysgol/coleg ar ddechrau'r diwrnod, ac o'r ysgol/coleg i'r cartref ar ddiwedd y dydd. Ni chaiff ei ddarparu rhwng sefydliadau addysgol yn ystod y dydd, ar gyfer apwyntiadau meddygol, ymweliadau ag ysgolion eraill neu leoliadau eraill, casglu o'r ysgol oherwydd salwch, gofynion cadw ar ôl ysgol, rhieni'n mynd i gyfarfodydd, amserlenni rhan-amser, bodloni amserlenni arholiadau neu glybiau ysgol estynedig.



Rhagor o Wybodaeth

Nid yw'r gwasanaeth yn gallu ystyried y canlynol wrth ystyried yr hawl i gludiant:

- Gwaith rhieni neu ymrwymadau eraill
- Brodyr a chwiorydd yn mynychu ysgolion eraill
- Os bydd rhiant yn dewis anfon ei blentyn i ysgol/darparwr addysg nad yw'n ysgol briodol agosaf at y cyfeiriad cartref
- Lleoliad profiad gwaith
- Lleoliad seiliedig ar waith
- Cyfeiriad heblaw am y cyfeiriad cartref, gan gynnwys gofawyr plant/perthnasau
- Taith o un sefydliad addysgol i un arall
- Ymweliadau ad hoc ag ysgolion a cholegau eraill neu sefydliadau eraill
- Clybiau y tu allan i oriau (e.e. brecwast, gweithgaredd ar ôl ysgol)
- Cyrsiau cyswllt

- Unrhyw ddarpariaeth addysgol a gynllunnir dros benwythnosau neu wyliau banc
- Trefniadau seibiant ac eithrio fel y rhai a nodwyd ar wahân (gweler yr adran ar Seibiant)
- Mynd i ysgol/uned/dosbarth arbennig am gyfnod o asesu

Codau Canllawiau

Mae'r Cyngor wedi llunio cod canllawiau ar gyfer y canlynol:

- Gweithredwyr Cludiant Ysgol
- Gyrwyr Cludiant Ysgol
- Cynorthwywyr Teithwyr Cludiant i'r Ysgol
- Disgyblion
- Rhieni
- Ysgolion

Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan y cyngor ac maent yn rhan o'r polisi hwn.

Fel rhan o'r polisi hwn rhaid i'r parti perthnasol ddilyn pob cod canllawiau.

Cod Ymddygiad Wrth Deithio Llywodraeth Cymru

Dylai'r holl ddisgyblion sy'n cael eu cludo o'r cartref i'r ysgol/coleg ac yn ôl ddilyn Cod Ymddygiad wrth Deithio Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, cydnabyddir na all ymddygiad rhai disgyblion ADY fod yn destun y cosbau rhagnodedig sydd ar waith ar gludiant prif ffrwd oherwydd gall fod yn symptom o'u cyflwr meddygol na ellir ei reoli.

Mae disgyblion sy'n mynd i Unedau Cyfeirio Disgyblion yn destun y cod ymddygiad teithio ar y sail fod y cod ymddygiad wrth deithio yn gymwys yn gyffredinol i bob dysgwr o 5 i 19 oed

Ffurflenni Cais am Gludiant (Cludiant Ysgol i Ddisgyblion ADY)

Bydd y Tîm Gwella Ysgolion a Chynhwysiant yn anfon ffurflen Cais Cludiant at rieni/gofalwyr disgyblion cymwys iddynt ei gwirio, ychwanegu rhagor o wybodaeth ati, ei diwygio, ei llofnodi a'i dychwelyd. Dyma gyfle'r rhieni/gofalwyr sicrhau bod y darparwr cludiant yn cael gwybod am yr holl wybodaeth sydd ei hangen i gludo eu plentyn yn ddiogel. Bydd y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r Tîm Cludiant Teithwyr lle bydd cludiant addas yn cael ei drefnu.

Ar ôl derbyn y ffurflen wedi'i llofnodi, fel arfer bydd angen deg diwrnod (ysgol) i drefnu cludiant a hysbysu'r holl bartïon am y trefniadau a roddir ar waith. Ni fydd cadeiriau olwyn yn cael eu cludo hyd nes y bydd "tag" wedi cael ei gyhoeddi gan y Tîm Cludiant Teithwyr yn darparu gwybodaeth am systemau ataliaeth ar gyfer cadeiriau olwyn a theithwyr ar gyfer y math hwnnw o gadair olwyn.

Tocynnau Bws (cludiant prif ffrwd)

Bydd y Cyngor yn anfon tocynnau bws i gyfeiriadau disgyblion unigol ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol dros wyliau'r haf. Gwrthodir teithio i unrhyw ddisgybl nad yw'n cyflwyno naill ai tocyn bws neu lythyr gan yr ysgol, i'r gyrrwr. Mae'r cyngor yn gofyn i'r holl weithredwyr ddilyn rheol gaeth "dim tocyn dim teithio" (ceir manylion am hyn yn y Cod Canllawiau).

Tocynnau bws newydd

Ym mhob achos cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw talu am gost tocynnau bws newydd yn lle rhai sy'n cael eu colli neu eu difrodi. Dylid cysylltu â'r tîm Cludiant Teithwyr cyn gynted â phosibl lle y gellir talu a chyhoeddi'r tocyn bws newydd.

Brodyr a chworydd

O safbwynt addysgol mae'r Cyngor, fel Awdurdod Addysg Lleol, yn gwneud trefniadau i frodyr a chworydd disgyblion fynychu'r un ysgol, hyd yn oed mewn achosion lle nad yr ysgol agosaf yw'r ysgol agosaf sydd ar gael. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i gynnig cludiant am ddim i'r ysgol mewn achosion o'r fath a chyfrifoldeb rhieni fydd talu costau cludo eu plentyn/plant i'r ysgol ac oddi yno a'r trefniadau ar gyfer hyn. Fodd bynnag, gall fod achosion lle gellir prynu sedd sbâr ar wasanaethau cludiant ysgol presennol – gweler yr adran ar brynu sedd sbâr

Llwybrau Cerdded Anaddas

Mae gan y cyngor ddyletswydd i ddarparu cludiant am ddim os ystyrir bod llwybr cerdded yn anaddas. Mae argaeledd llwybr cerdded yn seiliedig ar Arweiniad ar Asesiad Risg o Llwybrau a Gerddir i'r Ysgol (*pennod 5 o Ddarpariaeth Statudol ac Arweiniad Gweithredol 2014*) Llywodraeth Cymru

Ystyrir pob llwybr yn ôl ei rinweddau ei hun. Os bydd dadl o hyd ar ôl unrhyw asesiad cychwynnol, gall y Cyngor benodi cwmni annibynnol i asesu'r llwybr.

Os ystyrir bod llwybr cerdded yn anaddas yn unol â'r canllawiau ni fydd y Cyngor yn ad-dalu unrhyw gostau yr eir iddynt gan rieni cyn cael yr adroddiad asesu llwybr cerdded.

Cysylltiadau Trafnidiaeth

Bydd y cyngor yn arfer disgrisiwn wrth benderfynu a fydd yn darparu cysylltiad tacsî â gwasanaeth bws presennol ar gyfer y disgyblion hynny sy'n byw mewn lleoliadau gwledig

Prynu Sedd Sbâr

O bryd i'w gilydd mae'n bosibl y bydd nifer y disgyblion y mae ganddynt hawl i gludiant am ddim yn llai na'r lleoedd sydd ar gael yn y cerbyd a ddefnyddir. Mewn achosion o'r fath bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod lle sbâr ar gael i ddisgyblion eraill am dâl.

Rhaid talu am gost y sedd sbâr yn llawn cyn i docyn gael ei gyhoeddi. Rhaid deall nad yw darparu'r cyfleuster hwn yn gyfystyr â rhwymedigaeth ar y Cyngor ac, yn gwbl ddibynol ar y nifer y lleoedd yn y cerbyd a ddefnyddir, gall arwain at dynnu'r cyfleuster yn ôl gan roi rhybudd cymharol fyr er mwyn darparu ar gyfer disgyblion sy'n cymhwyso ar gyfer cludiant am ddim. Os caiff y cyfleuster eu dynnu yn ôl, caiff rhieni eu had-dalu am unrhyw gordaliad a wnaed.

Dylid sylwi na fydd y Cyngor yn gwerthu seddau sbâr i'r disgyblion hynny sy'n mynychu unedau meithri.

Taliadau i rieni/gofalwyr

Efallai y bydd yr awdurdod yn cytuno i riant/gofalwr gludo ei blentyn i'r ysgol ac yn ôl a chael ad-daliad am dreuliau petrol os ystyrir mai hyn yw'r trefniant mwyaf priodol, fel

arfer lle nad oes cludiant amgen ar gael. Bydd y taliad ar ffurf taliad milltired, cyfradd ddyddiol y cytunir arnynt neu gost y tocyn cludiant cyhoeddus.

Newid Cyfeiriad

Dylid rhoi gwybod am unrhyw newid cyfeiriad yn uniongyrchol i'r Tîm Cludiant Teithwyr a fydd yn gallu ailasesu hawl i gludiant a threfnu cludiant amgen yn ôl yr angen.

Gall rhybudd o ddeg diwrnod ysgol fod yn ofynnol i drefnu cludiant amgen os nad oes lle ar gael ar lwybr presennol sy'n gweithredu'n agos at y cyfeiriad newydd.

Rhieni â Chyfeiriadau Gwahanol

Efallai y dyrennir lle ar ddau wasanaeth cludiant ysgol ar wahân i ddisgyblion sy'n byw mewn gwahanol gyfeiriadau rhieni drwy gydol yr wythnos ysgol. Mae hyn ar yr amod bod y ddau gyfeiriad yn bodloni'r meini prawf cymhwyso a bod y ddau yn gyfeiriadau cofrestredig gyda'r ysgol.

Newid Cyfeiriad – disgyblion TGAU

Os bydd disgybl yn newid cyfeiriad ym Mlwyddyn 10 (ar ôl gwyliau hanner tymor mis Hydref) neu ym Mlwyddyn 11, bydd ceisiadau am gludiant ysgol am ddim yn cael eu hystyried ar sail unigol.

Dim ond y disgyblion hynny sydd eisoes yn byw ym Mro Morgannwg neu'n symud i Fro Morgannwg a fydd yn cael eu hystyried.

Cludiant am ddim a ddyfarnwyd mewn camgymeriad

Os gwneir camgymeriad neu lle caiff deddfwriaeth ei newid gall hyn effeithio ar hawl disgybl neu ddisgyblion sy'n defnyddio cludiant ysgol. Bydd y Cyngor yn anrhydeddu'r ddarpariaeth cludiant

ar gyfer y disgybl neu'r disgyblion hynny am weddill yr hanner tymor academaidd y gwnaed y camgymeriad neu'r hanner tymor y daeth y ddeddfwriaeth i rym ynddo.

Cyfrifoldeb rhiant/gofalwr cyn i ddisgybl fynd ar gerbyd a phan fydd yn ei adael

Cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw sicrhau diogelwch eu plentyn/plant cyn iddynt fynd arr gludiant ysgol yn y bore.

Yn yr un modd, cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw sicrhau diogelwch y plentyn pan fydd ef/hi yn gadael y cerbyd ar y ffordd adref.

Ni fydd y cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb pan na fydd rhiant yn cwrdd â'i blentyn, naill ai wrth safle bysiau neu gyfeiriad cartref, ar yr amser cyrraedd dynodedig ar daith yn y prynhawn, neu lle mae disgybl yn anghofio ei docyn bws ac nad yw'n cael ei dderbyn ar y cerbyd.

Gollwng disgyblion cynradd prif ffrwd yn y prynhawn

Mae gan y Cyngor weithdrefn glir y dylai gweithredwyr cludiant ei dilyn wrth gludo disgyblion oed cynradd.

Mae'r gyrrwr/hebryngwr yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl rieni/gofalwyr lenwi taflen wybodaeth sy'n rhoi manylion cyswllt brys, y diwrnodau y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio, pwy fydd yn cwrdd â'r plentyn o'r safle yn y prynhawn, ac ati.

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chadw ar ffeil os na fydd oedolyn cyfrifol yn bresennol i gasglu disgybl o'r gwasanaeth yn y prynhawn.

Dylai'r holl ddisgyblion oed cynradd gael eu trosglwyddo i oedolyn cyfrifol. Ni ddylid caniatáu i unrhyw ddisgybl gerdded o'r bws o'i wirfodd.

Y weithdrefn i'w dilyn os nad oes oedolyn cyfrifol yn bresennol:

1. Ffoniwch y rhif argyfwng ar y daflen wybodaeth;
2. Cysylltwch â'r tîm Cludiant Teithwyr a fydd yn trafod â'r ysgol;
3. Os na ellir cysylltu â neb, dylech barhau â'r daith tan y stop olaf;
4. Os nad oes modd cysylltu â neb o hyd ar y stop olaf, dychwelwch y disgybl i'r ysgol;
5. Yna gellir gwneud trefniadau, gan ystyried diogelwch y disgybl.

Os nad yw rhiant/gofalwr yn cwrdd â disgybl yn rheolaidd gall hyn arwain at sancsiynau yn cael eu gorfodi, fel eithrio disgybl dros dro rhag trafndiaeth ysgol am ddim.

Byddwch yn ymwybodol y gall disgyblion sy'n teithio ar drafndiaeth ysgol y telir amdani nad ydynt yn gymwys ar gyfer trafndiaeth ysgol a ddim fod yn agored i sancsiynau o'r cwmni bysyst yn uniongyrchol, a allai gynnwys eithrio rhag trafndiaeth yn barhaol.

* Bydd angen i rieni sydd am i'w plentyn gerdded ar ei ben ei hun o'r bws yn y prynhawn gyflwyno cais ysgrifenedig i'r darparwr gwasanaeth yn cadarnhau nad oes gan y gweithredwr bws/gyrrwr/cynorthwydd teithwyr ddyletswydd gofal am eu plentyn pan fydd y plentyn wedi camu oddi ar y cerbyd.

Gollwng disgyblion ADY yn y prynhawn

Os nad yw'r rhiant/gofalwr gartref yn y prynhawn, bydd y gyrrwr yn gadael nodyn yn y tŷ gyda manylion cyswllt i ddweud ei fod wedi galw ac y bydd yn cysylltu â'u Gweithredwr Cludiant ar unwaith i gael cyngor.

Gwregysau diogelwch

Mae'r holl wasanaethau cludiant ysgol dan gontract yn ei gwneud yn ofynnol cael gwregys diogelwch i bob disgybl. Yr unig eithriad i hyn yw gwasanaethau bysiau sydd wedi cofrestru'n lleol.

Teledu cylch cyfyng

Polisi'r Cyngor yw darparu CCTV ar bob gwasanaeth ysgol dan gcontract lle mae 21 sedd neu ragor yn y cerbyd. Bydd arwyddion clir yn cael eu harddangos ar gerbydau er mwyn nodi hyn.

Cynorthwyr Teithwyr

Polisi'r Cyngor yw darparu hebryngwyr ar gyfer yr holl wasanaethau ysgolion cynradd prif ffrwd lle mae mwy nag 16 o ddisgyblion yn cael eu cludo. Gall y Cyngor ddefnyddio ei ddisgresiwn i ddarparu hebryngwr ar wasanaethau ysgolion cynradd â llai na 16 o ddisgyblion mewn ardaloedd gwledig anghysbell â signal ffonau symudol cyfyngedig. Eithriad yn hytrach na'r norm fydd hyn.

Bydd cynorthwydd teithwyr ond yn cael ei ddarparu ar gludiant ysgol i ddisgyblion ADY yn dilyn asesu a chymeradwyo gan y Tîm Gwella Ysgolion a Chynhwysiant a'r Tîm Cludiant Teithwyr ar y cyd â'r ysgol. Bydd yr angen parhaus am hebryngwr yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn neu'n fwy rheolaidd lle bo angen.

Tywydd Garw

Gall tywydd garw achosi problemau mawr o ran darparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Gan rhoi'r pwys mwyaf ar ddiogelwch, contractwyr fydd yn gwneud y penderfyniad yn y pen draw o ran a fydd gwasanaeth yn gweithredu ac amseriad penodol y gwasanaeth os bydd yn gweithredu yn ystod tywydd garw. Er mwyn rheoli hyn yn effeithiol, sicrhewch eich bod yn gwybod y sefyllfa ddiweddaraf am amodau tywydd bob amser a sicrhewch fod rhifau ffôn cyswllt yn gyfredol.

Bydd ysgolion yn hysbysu canolfan gyswllt Bro Morgannwg eu bod yn cau a bydd hyn yn cael ei gyhoeddi'n gyflym ar wefan Bro Morgannwg

(www.bromorgannwg.gov.uk). Mae gorsafoddedd radio lleol fel arfer yn darlledu diweddariadau rheolaidd ar achosion o gau ysgolion mewn tywydd garw iawn. Bydd y Tîm Cludiant Teithwyr hefyd yn ceisio diweddarau'r cyfrif Cludiant Cyhoeddus ar Twitter.

Os disgwylir tywydd garw ac nad yw'r Cyngor wedi cyhoeddi bod yr ysgol(ion) yn cau, y contractwr fydd yn gyfrifol am benderfynu a ddylid darparu gwasanaeth ar gyfer teithiau'r bore. Os bydd contractwr yn cynnal y daith fore dylid disgwyl i daith y prynhawn hefyd gael ei gweithredu oni bai bod y tywydd yn gwaethygu'n gyflym neu os bydd rhagolygon yn darogan y bydd y tywydd yn gwaethygu. Os na fydd teithiau'r bore yn cael eu cynnal oherwydd amodau tywydd garw, rhaid i gontractwyr hysbysu Penaethiaid a'r Tîm Cludiant Teithwyr am eu penderfyniad ar unwaith.

Os penderfynir peidio â chynnal taith y bore, rhaid i weithredwyr fod yn ymwybodol o'r ffaith y gall amodau wella i'r graddau bod taith y prynhawn yn ymarferol. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae plant sydd fel arfer yn cael eu cludo gan gludiant ysgol wedi'u cludo i'r ysgol gan eu rhieni. Yn y sefyllfaoedd hyn rhaid i'r contractwr fod yn barod i gludo disgyblion adref yn y prynhawn. Ni fydd disgwyl i gontractwyr gludo adref unrhyw blentyn a gludir i'r ysgol gan riant os bydd asesiad yn dod i'r casgliad nad oes modd cynnal taith y prynhawn.

Os bydd amodau'r tywydd yn gwaethygu yn ystod y dydd, efallai y bydd Penaethiaid yn penderfynu cau'r ysgol yn gynnar. Os yw hyn yn wir gofynnir i gontractwyr cludiant gyflenwi cludiant mor brydlon â phosibl. Bydd ysgolion sy'n cau'n gynharach nag arfer yn gyfrifol am sicrhau bod rhieni plant ysgolion cynradd a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gael i gasglu eu plant (neu wedi trefnu i oedolyn cyfrifol i wneud hynny).

Monitro Contractau

Bydd yr holl wasanaethau cludiant ysgol yn cael eu monitro o bryd i'w gilydd drwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae'r cyngor, ar ddiwrnodau amhenodol, yn gwirio contractau ar hap, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag amodau contract.

Gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Bwriad y Cyngor yw bod yr holl yrwyr a hebryngwyr sy'n gweithredu gwasanaethau penodedig o'r cartref i'r ysgol ym Mro Morgannwg yn cael gwiriad manwl gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Dim ond pan fydd y cyngor wedi gweld y dystysgrif DBS ac awdurdodi bod unigolyn yn gallu gweithio ar wasanaethau cludiant ysgol yw y bydd person yn cael bathodyn adnabod.

Hyfforddiant

O bryd i'w gilydd bydd yn ofynnol i yrwyr a hebryngwyr fynd i sesiynau hyfforddi perthnasol, a fydd yn helpu o ran deall a rheoli'r plant yn maent yn eu cludo. Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan y Cyngor ar y cyd â'r ysgol a'r darparwr cludiant. Bydd y pynciau yr ymdrinnir â hwy yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir ac yn cynnwys codi a chario, defnyddio ataliadau cadair olwyn priodol, diogelu ac ymdrin ag ymddygiad heriol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r pynciau hyn.

Bydd ar rai gyrywyr penodol angen Tystysgrif o Gymhwysedd Proffesiynol (CPC) er mwyn sicrhau y gallant ddarparu gwasanaeth a chydymffurfio â'r gyfraith. Bydd y Cyngor a'r darparwr trafniadaeth yn sicrhau bod y rhain ar waith lle bo'n gymwys.

Cyswllt Ysgolion

Bydd y Cyngor yn gofyn i bob ysgol gael aelod dynodedig o staff sy'n ymdrin yn benodol â materion cludiant ysgol.

Cyflyrau Meddygol Dros Dro

Os na all disgybl prif ffrwd ddefnyddio cludiant prif ffrwd yn sgil cyflwr meddygol dros dro ni fydd y Cyngor yn trefnu cludiant ar wahân.

Os oes gan ddisgybl ADY gyflwr meddygol dros dro gellir darparu cludiant ar gais gan y Tîm Gwella Ysgolion a Chynhwysiant.

Bydd cludiant a ddarperir ar sail feddygol yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Bydd cyflyrau meddygol dros dro yn cael eu hadolygu bob hanner tymor neu cyn hynny, yn dibynnu ar gyngor meddygol. Bydd cyflyrau meddygol tymor hwy yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Cyflyrau Meddygon Rhiant/Gofalwr

O dan delerau'r polisi hwn, nid yw cymorth yn cael ei ddarparu ar gyfer person ifanc mewn perthynas ag anabledau/cyflyrau meddygol ei rieni/gofalwyr.

Difrod i Gerbydau

Cynghorir gyrywyr a hebryngwyr i gysylltu â'r heddlu a'r cydlynnydd cludiant ar unwaith os oes perygl o ddifrod neu ddifrod bwriadol i'r cerbyd. Cynghorir rheini lle mae disgyblion wedi difrodi neu faeddu cerbyd neu eiddo'r darparwr cludiant, bydd yn ofynnol iddynt ad-dalu'r darparwr cludiant yn ariannol.

Gweithdrefn Gwyno

Dylai unrhyw gwynion gael eu cyfeirio at y Tîm Cludiant Teithwyr i ddechrau. Ceir manylion cyswllt ym mlaen y ddogfen bolisi hon.

Ymchwilir ar unwaith i unrhyw gwynion a geir gan rieni, disgyblion, ysgolion. Os bydd y gwyn yn cael ei chadarnhau, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gymryd unrhyw gamau priodol sy'n angenrheidiol yn unol ag amodau contract

Yn unol â Chod Ymddygiad Wrth Deithio Llywodraeth Cymru ymchwilir i unrhyw gŵyn a wneir ynglŷn ag ymddygiad disgyblion. Gall y Cyngor osod cosbau, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y digwyddiad, yn amrywio o atal dros dro i waharddiad llwyr o'r cludiant.

Y Broses Apelio

Os hoffech apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad (gan gynnwys hawl) o ran cludiant i ysgolion prif ffrwd gallwch gyflwyno eich apêl yn ysgrifenedig i'r:

Pennaeth Gwasanaethau Gweladwy a Chludiant
Cyngor Bro Morgannwg
Depo'r Alpau
Gwenfô
CF5 6AA

Dylai unrhyw apêl am hawl i Gludiant i Ysgolion ADY gael ei chyfeirio i ddechrau i:

Y Tîm Gwella Ysgolion a Chynhwysiant
Swyddog Anghenion Cymhleth a Chyswllt Ysgolion
Gwella Ysgolion a Chynhwysiant
Cyngor Bro Morgannwg
Tŷ Provincial
Y Barri
CF62 8BF



